


# LEADER YN NE-DDWYRAIN CYMRU

Darparu strategaethau a chyllid a arweinir yn lleol ar gyfer ardaloedd gwledig


LEADER

**Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:**
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig

**European Agricultural Fund for Rural Development:**
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# DATGANIAD CENHADAETH

Mae'r rhaglen LEADER wedi chwarae rhan hanfodol mewn twf, cydlyniad a ffyniant parhaus cymunedau gwledig ledled Cymru dros y degawd diwethaf, gan ein helpu i gyflawni effaith genedlaethol ac amcanion rhyngwladol.

Bu effaith timau lleol sy'n canolbwyntio'n unswydd ar ddatblygu cymunedau lleol yn amhrisiadwy wrth sicrhau datblygiad trigolion a busnesau fel ei gilydd i gyd-fynd ag agendau rhanbarthol.

Mae'r timau datblygu gwledig lleol wedi bod gwlad wedi bod yn adnodd hanfodol wrth gefnogi cymunedau i nodi eu blaenoriaethau eu hunain a chyflawni canlyniadau sy'n parhau. Mae hyn, yn ei dro, wedi cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei blaenoriaethau ei hun i creu Cymru fwy llewyrchus, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae amcanion a ffordd LEADER o weithio yn cyd-fynd yn agos â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru, sy'n ceisio gwella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.

Er bod LEADER wedi cael effaith gadarnhaol dros y degawd diwethaf, mae'n bosibl na welwn ni werth hirdymor llawn y rhaglen am flynyddoedd lawer. Mewn llawer o achosion, LEADER yw'r catalydd ar gyfer newid sy'n galluogi rhagor o dwf a datblygiad yn y cymunedau hyn ac yn cyflawni effaith hyd yn oed yn fwy yn y tymor hir.

Bu'r pwyslais ar ddatblygiad cymunedol wedi'i arwain yn lleol yn hollbwysig i ffyniant cynhaliol a blaengar cymunedau gwledig Cymru.

# BETH YW LEADER YNG NGHYMRU?

**"Mae'r model LEADER wedi grymuso a galluogi cymunedau i ddweud eu dweud yn y ffordd y dyrennir cyllid Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru ar lawr gwlad, ar brosiectau sy'n cael eu blaenoriaethu'n lleol gan hyrwyddwyr cymunedol ac arbenigwyr rheng flaen, gan seilio penderfyniadau ar wybodaeth ac angen lleol."**

*Cadeirydd Grŵp Gweithredu Lleol Pen-y-bont ar Ogwr, y Cynghorydd Charles Smith, Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio.*

Mae LEADER yn ddull datblygu lleol sy'n canolbwyntio ar ardaloedd gwledig, sy'n cynllunio ac yn cyflawni strategaethau lleol ac yn goruchwylio dyraniad cyllid i brosiectau cymunedol. Ceir cyfanswm o 18 o Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru sy'n cynnwys aelodau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ac sydd wedi'u cydlynu gan Lywodraeth Cymru. Gan ddibynnu ar leoliad, caiff y Grwpiau Gweithredu Lleol hyn eu cefnogi naill ai gan yr Awdurdod Lleol neu gan asiantaethau menter lleol a sefydlwyd.

Mae LEADER yn caniatáu'r hyblygrwydd o gymorth wedi'i deilwra i bob ardal unigol, heb ymagwedd 'un dull i bawb'. Cymru oedd un o'r gwledydd cyntaf i ddefnyddio LEADER, ac mae ganddi waddol erbyn hyn o bron i dri degawd o arbenigedd i'w defnyddio.





## MAE 7 NODWEDD I LEADER:

### 1 STRATEGAETH WEDI'I SEILIO AR ARDAL.
Yn canolbwyntio ar gryfderau, elfennau unigryw a chyfleoedd lleol yn ogystal â'r asedau cymdeithasol a ffisegol mewn cymunedau gwledig.

### 2 DULL O'R GWAELOD I FYNY.
Cymunedau sy'n pennu eu blaenoriaethau eu hunain ac fe'u cefnogir gan dîm i ddatblygu prosiectau a fydd yn bodloni eu hamcanion.

### 3 GRWPIAU GWEITHREDU LLEOL.
Datblygir a chyflawnir strategaethau ar lawr gwlad, gyda phartneriaethau yn cynnwys aelodau'r sector cyhoeddus, y sector preifat, a'r trydydd sector.

### 4 ARLOESI.
Yr hyblygrwydd i gymunedau brofi syniadau a dulliau newydd wedi'u seilio ar asedau a chyfleoedd yn eu cymunedau.

### 5 INTEGREIDDIO.
Tynnu pobl ynghyd i gydweithio ar brosiectau cymunedol a rhannu eu gwybodaeth, profiad a syniadau.

### 6 RHWYDWEITHIAU.
Rhannu llwyddiant a gwersi a ddysgwyd â chymunedau eraill a defnyddio prosiectau treialu i ddatblygu ymhellach.

### 7 CYDWEITHREDU.
Anogir prosiectau unigol i gydweithio ar draws rhanbarthau a gwledydd.

# LEADER A DYFODOL CYMRU

Mae LEADER yn cyd-fynd yn agos â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Symud Cymru Ymlaen 2016 – 2021.

## Y SAITH NOD LLESIANT

1. CYMRU LEWYRCHUS
2. CYMRU GYDNERTH
3. CYMRU IACHACH
4. CYMRU SY'N FWY CYFARTAL
5. CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNUS
6. CYMRU Â DIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE'R GYMRAEG YN FFYNNU
7. CYMRU SY'N GYFRIFOL AR LEFEL FYD-EANG

## NODAU DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

- Nodi atebion arloesol i'r heriau mwyaf brys mae ein cymunedau yn eu hwynebu.
- Gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.
- Annog cyrff cyhoeddus i adolygu eu hamcanion llesiant yn flynyddol.
- Cynnwys pobl a chymunedau yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- Gweithio gyda chymunedau i ddeall achosion problemau a sut i ddod o hyd i atebion newydd.

### Sut mae LEADER yn cyd-fynd â hyn:

- Mae LEADER yn cefnogi cymunedau gwledig i weithredu drwy ddull arloesol o fynd i'r afael â'r heriau a'r materion sy'n effeithio arnynt.
- Mae cynaliadwyedd wrth wraidd LEADER. Mae'n rhaid i bob prosiect ddangos sut y bydd yn parhau pan ddaw'r cyllid i ben.
- Mae pob Grŵp Gweithredu Lleol yn adolygu ei Strategaeth Datblygu Lleol yn flynyddol, gan ystyried sut mae'n cyd-fynd â'r Ddeddf Llesiant.
- Mae LEADER wedi darparu adnoddau i gymunedau gwledig i gyfeirio eu datblygiad economaidd eu hunain drwy ddull lleol, dan arweiniad y gymuned.
- Datblygir Strategaethau Datblygu Lleol yn barhaus drwy ymgynghori cymunedol.

## NOD SYMUD CYMRU YMLAEN 2016 – 2021 YW CREU CYMRU SY'N…

- Llewyrchus a chadarn
- Iach ac actif
- Uchelgeisiol ac yn dysgu
- Unedig ac wedi'i chysylltu
- Rhannu heriau a chyfleoedd

### Sut mae LEADER yn cyd-fynd â hyn:

- Datblygiad â phwyslais lleol yn cryfhau ac yn cefnogi'r economi sylfaenol.
- Mae gan ardaloedd gwledig botensial unigryw ar gyfer datblygiad economaidd, ynghyd ag asedau naturiol a all gefnogi ffyrdd iach o fyw.
- Dulliau wedi'u seilio ar ardal yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ysgogi asedau.
- Mae ymchwil wedi dangos bod Grŵpiau Gweithredu Lleol â gwell grym gwneud penderfyniadau yn dangos gwell canlyniadau.



# SWYDDOGAETH GRWPIAU GWEITHREDU LLEOL

**"Mae llwyddiant y rhaglen LEADER ym Mro Morgannwg yn deillio o Grŵp Gweithredu Lleol ymrwymedig sy'n dod â chyfoeth o wybodaeth a phrofiad o amrywiaeth o sectorau gyda nhw, a sut maent yn integreiddio cystal â'r tîm cyflawni sy'n gwneud gwaith gwych o weithredu'r rhaglen. Mae'r tîm yn uchel ei barch ac yn cael ei gydnabod yn yr ardal a'i ystyried fel y pwynt cyswllt cyntaf am bob mater sy'n ymwneud â'r gymuned wledig, ac fe gânt eu hyrwyddo fel hwyluswyr a llysgenhadon lleol ar gyfer materion gwledig. Heb y rhaglen LEADER, byddem wedi gweld colli adnodd gwerthfawr yn ein cymuned sydd wedi bod yn hanfodol wrth ddod â phobl at ei gilydd i fynd i'r afael â heriau a chreu atebion a arweinir yn lleol."**

*Carolyn Mckenzie – Cadeirydd y Grŵp Gweithredu Lleol – Bro Morgannwg.*

Grŵp gweithredu lleol sy'n rheoli pob ardal LEADER. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys trawstoriad o gynrychiolwyr o'i wardiau gwledig gan gynnwys aelodau o'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Trwy ddefnyddio dull partneriaeth, swyddogaeth Grŵp Gweithredu Lleol yw cynllunio strategaeth datblygu lleol ar gyfer ei ardal a gwneud penderfyniadau ynglŷn â'i weithredu drwy gydol y rhaglen, gan sicrhau bod yr holl weithgareddau yn cysylltu â'r strategaeth.

Mae grwpiau gweithredu lleol yn cynnig dealltwriaeth werthfawr o'r cymunedau mae nhw'n eu cynrychioli. Yn ogystal â chyfarwyddo gwaith y tîm LEADER, maen nhw'n cyd-lunio ac yn arfarnu mentrau newydd. Bu'r dull hwn o ddatblygu lleol dan arweiniad y gymuned yn fodel llwyddiannus dros flynyddoedd olynol ers 2004, gan sicrhau rhaglen datblygu sydd wedi'i hysgogi a'i rheoli gan y cymunedau mae'n eu cynrychioli.





## FFRAMWAITH LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER BUDDSODDI RHANBARTHOL YNG NGHYMRU

Mae Fframwaith Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth dull LEADER o ddatblygu lleol a arweinir gan y gymuned sy'n ymgorffori egwyddorion:

- Ymagwedd leol sy'n seiliedig ar ardal
- Ymagweddau cyfranogol partneriaeth a chyd-gynhyrchu
- Strategaethau aml-sector integredig
- Arloesi
- Rhwydweithio a chydweithredu

Mae'r Fframwaith yn tynnu sylw at yr effaith y mae datblygu lleol a arweinir gan y gymuned yn ei gael o ran meithrin gallu mewn ardaloedd lleol drwy gynyddu rhwydweithiau a chyfalaf cymdeithasol, adeiladu llywodraethiant lleol, a gwella'r modd y cyflawnir canlyniadau.

Cydnabyddir bod gan Awdurdodau Lleol rôl ganolog wrth ddatblygu a chyflawni'r ymyriadau angenrheidiol sy'n helpu i adfer ac adnewyddu cymunedau lleol yn economaidd. Mae gan lawer o Awdurdodau Lleol dimau Gwledig eisoes sy'n darparu rhaglenni LEADER a rhaglenni CDG eraill gyda'r wybodaeth a'r arbenigedd lleol sydd eu hangen i gefnogi cymunedau gwledig a dealltwriaeth fanwl o'r rhwystrau a'r heriau y maent yn eu hwynebu.

Mae'r rhaglen LEADER yn cael ei chyflwyno ar hyn o bryd ar draws pob ward wledig yng Nghymru. Mae'r Fframwaith yn rhagweld y bydd unrhyw fodel datblygu lleol newydd a arweinir gan y gymuned yn fodel ar sail Cymru gyfan, gan ymestyn cymorth i ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd gwledig o bosibl.

*Meddai Cadeirydd Grŵp Gweithredu Lleol (GGLl) Dyffryn Wysg, Pamela Mason:*

**"Mae LEADER yn gatalydd allweddol ar gyfer datblygu cymunedol lleol yn Nyffryn Wysg. Mae cyfran sylweddol o'r boblogaeth wledig yn Nyffryn Wysg yn dioddef o dlodi a gwahanol fathau eraill o amddifadedd cysylltiedig, gan gynnwys iechyd a deiet gwael a diffyg hygyrchedd i wasanaethau hanfodol a rhai nad ydynt yn hanfodol. Mae LEADER yn helpu i fynd i'r afael â materion a achosir gan amddifadedd gwledig, gan ysgogi twf economaidd, gyda'r potensial ar gyfer gwell incwm a chreu swyddi newydd, yn ogystal â gwell cyswllt cymdeithasol ar draws ardal GGLl Dyffryn Wysg".**



# YR EFFAITH O LEADER

Fel y dangosir drwy gydol y llyfryn hwn, mae LEADER wedi - ac yn parhau i - gynnig dull eang ac amrywiol o ddatblygu lleol a arweinir gan y gymuned.


Fodd bynnag, nid dim ond yn y prosiectau a'r cymunedau niferus y mae'n eu cefnogi'n uniongyrchol y mae gwerth LEADER, ond hefyd ei rôl fel catalydd sylweddol ar gyfer adfywio ac arloesi pellach.

Yma yn ne-ddwyrain Cymru, derbyniodd ein 6 Grŵp Gweithredu Lleol a'u rhaglenni LEADER £12,383,343 o gyllid i gyflawni prosiectau yn ein cymunedau drwy gyfnod y Rhaglen CDG bresennol, 2013-2020.

Unwaith eto, yn ne-ddwyrain Cymru, mae'r timau a'r prosiectau LEADER hyn wedi bod yn gyfrifol am sbarduno £30,094,487 ychwanegol o gyllid o wahanol ffynonellau, gan ddangos y gwerth sylweddol o gael personél lleol a gwybodus yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill ar amrywiaeth o raglenni yn seiliedig ar anghenion lleol a rhanbarthol a nodwyd. Mae hyn yn cynnwys dros £5.2 miliwn o gyllid ychwanegol a sicrhawyd drwy'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig a thros £3 miliwn mewn cyllid cadwyn gyflenwi gydweithredu.

Mae cysylltiad annatod rhwng llwyddiant timau lleol yn sicrhau 139% o gyllid ychwanegol â'r arbenigedd a'r wybodaeth i oresgyn heriau a chofleidio cyfleoedd lleol a chefnogi cymunedau gwledig bywiog, hyfyw a gwydn.

Heb gyllid LEADER yn darparu'r sylfaen i gymorth datblygu gwledig a datblygu mewn ardaloedd o gwmpas cefn gwlad, byddai cymunedau gwledig ar draws ein hardaloedd GGLl wedi cael llai o fuddsoddiad targedig sy'n alinio â'u sefyllfa a dylid defnyddio'r dull gweithredu fel ffordd effeithiol o sicrhau adfywiad a gwydnwch ystyrlon ledled Cymru.




| | Pen-y-bont ar Ogwr | Caerffili a Blaenau Gwent | Sir Fynwy a Chasnewydd | Merthyr a RCT | Torfaen | Bro Morgannwg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm prosiectau a gyflawnwyd/gweithgareddau peilot a wnaed/cefnogwyd** | 45 | 62 | 87 | 98 | 34 | 84 | **410** |
| **Nifer yr astudiaethau o ddichonoldeb** | 40 | 6 | 14 | 2 | 10 | 26 | **98** |
| **Nifer y rhwydweithiau a sefydlwyd** | 6 | 5 | 66 | 21 | 3 | 8 | **109** |
| **Nifer y swyddi a ddiogelwyd drwy brosiectau â chymorth** | 0 | 4 | 2 | 2 | 0 | 0 | **8** |
| **Nifer yr hybiau cymunedol** | 23 | 2 | 8 | 14 | 3 | 2 | **52** |
| **Nifer y gweithgareddau lledaenu gwybodaeth** | 160 | 77 | 234 | 171 | 17 | 250 | **909** |
| **Nifer y rhanddeiliaid a gynhwyswyd** | 318 | 187 | 2500 | 218 | 68 | 450 | **3741** |
| **Nifer y busnesau a gynhwyswyd** | | 81 | 3 | | | 170 | **254** |
| **Nifer y cyfranogwyr a gefnogwyd** | 1730 | 765 | 1450 | 3437 | 122 | 6500 | **14004** |
| **Swyddi a grëwyd** | 0 | 2 | 5 | 5 | 0 | 0 | **12** |
| **Nifer a ymgysylltwyd dros Covid** | 5400 | 19 | 500 | 800 | 34 | 108 | **6861** |

Am fanylion cyswllt a rhagor o wybodaeth ewch i:
**Rhwydwaith Gwledig Cymru | Busnes Cymru**



# PAM YDYM NI'N MEDDWL BOD Y DULL LEADER YN GWEITHIO?

1

Mae'n cefnogi arloesedd, gan ganiatáu i gymunedau dreialu syniadau a dulliau newydd o ddatblygu.

2

Mae'n cefnogi dull hyblyg ac ystwyth a all ymateb yn gyflym ar draws sectorau.

3

Mae'n caniatáu i bobl leol gyflawni'r prosiectau eu hunain neu'n gweithio mewn partneriaeth â nhw i wneud hynny.

4

Mae'n cydnabod elfennau unigryw, gan ddathlu diwylliant, bwyd, hanes ac adnoddau naturiol lleol.





# ASTUDIAETHAU ACHOS


| | |
|---|---|
| CYMUNED | 14 |
| TREFTADAETH | 16 |
| TWRISTIAETH | 18 |
| FFERMIO | 20 |
| YNNI | 22 |
| SGILIAU | 24 |
| DATBLYGU CYN-FASNACHOL | 26 |
| TECHNOLEGAU DIGIDOL | 28 |
| TIR A'R AMGYLCHEDD | 30 |
| CYDWEITHREDU | 32 |
| BWYD | 34 |
| CEFNOGAETH COVID | 36 |



# IEUENCTID GARW I BOBL IFANC 12-17 OED, PEN-Y-BONT AR OGWR

Mae Canolfan Ieuenctid y Garw yn amgylchedd croesawgar a chynhwysol i bobl ifanc 12-17 oed gwrdd a chymdeithasu. Mae'r Ganolfan yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon a hyfforddiant i wella sgiliau a chyfleoedd, yn ogystal â helpu i feithrin hyder a gwella llesiant.

Mae gan Gwm Garw lefel ddiweithdra uwch na'r cyfartaledd ymhlith pobl ifanc a thlodi plant, ond nid oes unrhyw ddarpariaeth ieuenctid i bobl 12 oed neu hŷn, felly siaradodd elusen leol â phobl ifanc i ddarganfod beth oedden nhw ei eisiau o Ganolfan Ieuenctid a datblygodd brosiect treialu, a gafodd ei ariannu'n llawn gan LEADER a'i reoli'n rhannol gan dîm LEADER Pen-y-bont ar Ogwr.

Yn y Ganolfan, gall pobl gael gafael ar wybodaeth, gweithgareddau a hyfforddiant mewn awyrgylch anffurfiol a hamddenol lle nad oes unrhyw bwysau gan oedolion na phwysau cyfoedion. Mae'n gweithio gyda'r heddlu, y gwasanaeth tân, achubwyr bywyd a chynghorwyr iechyd rhyw, gan eu galluogi i ymgysylltu â phobl ifanc mewn ffordd anffurfiol.

Yn y tymor byr, mae pobl ifanc sy'n dod i'r Ganolfan yn gwella'u hyder a'u hunan-barch, yn ogystal â rhyngweithio cymdeithasol a'u llesiant cyffredinol. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol ac unigedd ymhlith pobl ifanc wedi gostwng yn yr ardal, ac mae'r bobl ifanc hyn yn gallu hybu'r sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i hybu eu rhagolygon cyflogaeth.

Yn y tymor hir, o ganlyniad i gymorth gan LEADER, bydd gan bobl ifanc o'r ardal ddifreintiedig hon Ganolfan Ieuenctid gynaliadwy, oedran penodol sy'n darparu cyfleoedd cymdeithasu, chwaraeon a hyfforddiant iddyn nhw a'r cyfan yn cyfrannu at well ansawdd bywyd.

Trwy ddefnyddio'r Ganolfan Ieuenctid a'r cyfleoedd mae'n eu darparu, bydd gan bobl ifanc fwy o wybodaeth a sgiliau yn y pen draw, a fydd yn cyfrannu at well hyder a rhagolygon cyflogadwyedd hirdymor.






## DALGYLCH TAF BARGOED, GWEITHREDU GWLEDIG CWM TAF

Nod Dalgylch Taf Bargoed oedd ennyn diddordeb y gymuned yn eu hafonydd lleol, gan roi cyfle ar yr un pryd i ddysgu am bwysigrwydd afonydd iach a'u bioamrywiaeth. Cafodd y prosiect hwn ei gyflwyno gan Ymddiriedolaeth Afonydd De-ddwyrain Cymru gyda chefnogaeth LEADER, er mwyn darparu sgiliau, ymgysylltiadau a chyrsiau hyfforddi o fewn y cymunedau, yn ogystal â threfnu cyrsiau achrededig i wirfoddolwyr ar gyfer adfer afonydd a gweithio gydag ysgolion lleol i'w helpu i ddysgu am hyn holl.






## CANOLFANNAU CHWARAEON CYMUNEDOL CYNALIADWY, PEN-Y-BONT AR OGWR

Roedd Clwb Bechgyn a Merched Hŷn Cwm Garw yn chwilio am gyfleoedd i weithio gyda chlybiau chwaraeon lleol eraill i archwilio'r posibilrwydd o rannu cyfleusterau. Gan weithio gyda'r clwb, daeth tîm LEADER Pen-y-bont ar Ogwr â rhanddeiliaid eraill i'r bwrdd, gan gynnwys cyrff llywodraethu chwaraeon, a chomisiynodd brosiect i ystyried dichonoldeb sefydlu canolfannau chwaraeon cymunedol cynaliadwy yng nghwm Garw. Bydd y prosiect yn arwain at geisiadau eraill am gyllid i ddatblygu a threialu unrhyw ganolfannau newydd a'u dulliau rheoli ar y cyd.

## MAPIO CYMUNEDOL, BRO MORGANNWG

Roedd cymunedau yn Sain Tathan, Gwenfo a'r Rhws yn dymuno treialu ffyrdd newydd o fapio cymunedol. Daeth LEADER â chymunedau at ei gilydd i ganolbwyntio ar elfennau cadarnhaol yr ardal a darparu atebion i unrhyw broblemau. Sicrhaodd cymunedau gyllid gan gyrff allanol a chynhyrchodd y prosiect becyn adnoddau a gafodd ei ddefnyddio'n helaeth ledled y Fro ac fe'i mabwysiadwyd fel adnodd ymgynghori yn y cyngor. Mae cam newydd o'r prosiect ar y gweill i greu adnoddau i helpu cymunedau i fapio'u hanghenion mewn ymateb i COVID-19.



# ADFER MAENOR LLANYRAFON, TORFAEN

Roedd Maenor Llanyrafon yn adeilad rhestredig Gradd II adfeiliedig mewn parth llifogydd yn Nhorfaen. Er gwaethaf y ffaith ei bod wedi mynd â'i ben iddo, roedd potensial i roi bywyd newydd i'r safle – a'i hanes.

Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus yn 2007, sefydlwyd Grŵp Cymunedol Maenor Llanyrafon i atal dirywiad y faenor. Gyda chymorth LEADER, llwyddodd y grŵp i fynd ar drywydd mentrau i amlygu pwysigrwydd y faenor trwy gyfleoedd hamdden a dysgu i geisio gwella dealltwriaeth leol o werth pensaernïol, hanesyddol, amgylcheddol ac ecolegol.

Trwy ddulliau a staff cynllunio datblygiad gwledig LEADER llwyddodd y gymuned leol i sicrhau trobwynt arwyddocaol ar gyfer Maenor Llanyrafon. Fe aethant i'r afael â'r heriau o ran rhoi bywyd newydd i'r faenor a sicrhau digon o gyllid i adfer y safle a datblygu rhaglen dwy flynedd o weithgareddau a fyddai'n helpu i ymwreiddio ei threftadaeth yn y gymuned leol.

Helpodd dull LEADER i greu cysylltiadau rhwng pobl leol, cyflawni manteision cymdeithasol ac economaidd drwy gynnwys y gymuned leol yn y prosiect cyfan, o'r cysyniad cyntaf i'r adeiladu.

## ETIFEDDIAETH Y PROSIECT

Mae cynhyrchwyr lleol yn parhau i arddangos eu cynnyrch mewn marchnad grefftau wledig fisol a gynhelir yn y faenor, ac mae'r gymuned wedi elwa ar roi bywyd newydd i'w threftadaeth drwy farchnadoedd, gwyliau a digwyddiadau rheolaidd.

Bu saith mlynedd adfer Maenor Llanyrafon ac mae'n dal i gynnal ymdeimlad cryf o le. Mae pobl yn teithio yn bell ac agos i gael profiad o'i threftadaeth a'i diwylliant a dysgu amdani.

| | |
|---|---|
| **8** swydd lawn-amser wedi'u creu | **47** o ddigwyddiadau marchnata a hyrwyddo wedi'u cynnal |
| **6** phrosiect yn canolbwyntio ar wella'r amgylchedd neu gynaliadwyedd | **5,000+** o bobl yn elwa ar well gwasanaethau yn yr ardal |







## LLWYBR TREFTADAETH OGWR, PEN-Y-BONT AR OGWR

Daeth grŵp hanes lleol at LEADER ar ôl iddyn nhw nodi'r angen am ganolfan dreftadaeth. Darparodd LEADER £14,500 ar gyfer y prosiect, a chafwyd cyllid ychwanegol gan Gronfa Treftadaeth y Loteri. Sefydlwyd hyn mewn lleoliad cymunedol parod ac mae'n darparu ystod o hyfforddiant sgiliau ar gyfer y gymuned, gan gynnwys sgiliau digidol. Sefydlwyd llwybr treftadaeth hefyd sy'n cynnwys 12 arddangosfa ar hyd y llwybr â gwybodaeth, lluniau a deunydd sain am yr ardal gyfagos. Mae rheseli beiciau a gorsaf trwsio beiciau a phwmp beiciau yn y ganolfan hefyd i hybu beicio a llesiant.






## CANOLFAN TWNNEL HAFREN, DYFFRYN WYSG

Cyflenwodd LEADER gyllid hanfodol tuag at ailwampio canolfan arddangos hanes Twnnel Rheilffordd Hafren, a thoiledau newydd sydd ar agor yn ddyddiol i gerddwyr, yn arbennig ar gyfer llwybr yr arfordir. Datblygwyd arddangosfa glyweled ddigidol yn yr ardal arddangos i gyfleu hanes yr ardal a'r dref a ddeilliodd o'r twnnel. Mae'r ganolfan yn parhau i ddenu ymwelwyr i fwynhau gwersi am ddiwylliant a threftadaeth yr ardal.

## CYMOEDD TIPical, GWEITHREDU GWLEDIG CWM TAF

Prosiect dwy flynedd oedd Cymoedd TIPical gyda'r nod o ddod â phobl y cymunedau lleol ac arbenigwyr ynghyd, a'u hannog i weithio gyda'i gilydd i gymryd rhan mewn sgyrsiau, arolygon, gweithgareddau a phrofiadau, er mwyn cofleidio a hyrwyddo gwerth yr ardaloedd lle ceir gwastraff mwynau fel tomennydd. Wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen, anogwyd cymunedau i ffurfio grwpiau buddiant o amgylch y safleoedd hynny lle ceir gwastraff mwynau, a gweithio gyda'r prosiect i newid y ffordd y caiff tomennydd gwledig eu hamgyffred.





# ARFORDIR TREFTADAETH MORGANNWG, BRO MORGANNWG

Roedd dyhead eang i fanteisio'n fwy ar y cyfleoedd helaeth a gynigir gan Arfordir Treftadaeth Morgannwg i gyfrannu at ddatblygiad economaidd gwledig. Helpodd cyllid a chymorth gan LEADER i sefydlu fframwaith i archwilio a mynd ar drywydd y cyfleoedd economaidd gwledig hyn. Er bod pob prosiect yn wahanol, mae pob un wedi cyfrannu at wireddu potensial Arfordir Treftadaeth Morgannwg yn gynyddol sy'n prysur ddatblygu'n gyrchfan 'twristiaeth araf'.

**Gweithgareddau Ymdeimlad o Le Arfordir Treftadaeth Morgannwg:** Darparodd LEADER gymorth a chyllid i sefydliadau sy'n gwasanaethu ymwelwyr i ddatblygu eu 'hymdeimlad o le' drwy gyfres o ddigwyddiadau bach, i gefnogi dealltwriaeth a gwerthfawrogiad ymwelwyr o ardal Arfordir Treftadaeth Morgannwg.

**Prosiect treialu gwersylla arfordirol:** Bwriad y treial hwn oedd cynorthwyo a chefnogi perchnogion tir ar Arfordir Treftadaeth Morgannwg i dreialu gwersylla lefel isel cynaliadwy ar eu tir am gyfnod penodedig.

Wedi'i hwyluso drwy'r Cymunedau Gwledig Creadigol, fe wnaeth gynnwys pum gwahanol ffermwr a pherchnogion tir mewn treial yn 2012, ac roedd dau ffermwr arall yn rhan o farchnata'r treial.

**Prosiect treialu gweithgareddau arfordirol:** a alluogodd chwe darparwr gweithgareddau newydd i dreialu cynnig eu gweithgaredd i ymwelwyr â'r ardal o fis Gorffennaf-Medi yn 2014. Roedd y treial hwn yn llwyddiannus, ac mae pump o'r darparwyr yn dal i weithredu.

**Prosiect dehongli Arfordir Treftadaeth Morgannwg:** Strategaeth ddehongli oedd hon a arweiniodd at ddatblygu apiau realiti estynedig amrywiol a phecynnau gweithgareddau, yn ogystal â nodweddion porth celf cyhoeddus trwy brosiect a ariannwyd gan Gymunedau Arfordirol.

**Astudiaeth Dichonoldeb Gweithgareddau Antur a Digwyddiad Arddangos:** Nododd ac arddangosodd yr astudiaeth hon weithgareddau antur priodol ar hyd y morlin, yn ogystal â darparu cynllun gweithredu manwl i'w datblygu.





## LLYFR PROSIECT ENWAU LLEOEDD CYMRAEG PEN-Y-BONT AR OGWR, PEN-Y-BONT AR OGWR

Comisiynwyd y prosiect hwn gyda chymorth gan LEADER i gynnal gweithdai gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion i ddatblygu llyfr cyfair ar hanes a threftadaeth Pen-y-bont ar Ogwr trwy ei enwau lleoedd. Dysgodd trigolion y geiriau Cymraeg sy'n llunio enwau'r lleoedd hynny ac maen nhw'n gallu adrodd hanes eu stryd, tref, ysgol neu bentref erbyn hyn. Mae'r llyfryn ar gael o hyd wedi'i argraffu ac yn electronig.






## YMDEIMLAD O LE, BRO MORGANNWG

Datblygwyd y prosiect hwn i gyfleu'r cyfan sydd gan y Fro i'w gynnig drwy hyrwyddo bwyd, treftadaeth, iaith, yr awyr agored, celf, crefft a diwylliant. Cynhaliwyd digwyddiad 'ymdeimlad o le' yng Nghanolfan Gelfyddydau Sain Dunwyd ym mis Mai 2013. Roedd dros 50 o fusnesau, sefydliadau ac unigolion lleol yn bresennol a chafwyd anerchiadau gan siaradwyr a oedd yn cynnwys bragwyr a cheidwaid goleudai. Cafwyd arddangosfa gelf fis o hyd yn arddangos gwaith dros 50 o artistiaid lleol hefyd.

## GŴYL FFILM Y FRO, BRO MORGANNWG

Cefnogodd LEADER y gwaith o greu'r ŵyl hon, a gynhaliwyd fis Medi a Hydref 2019 ac a oedd yn cynnwys amrywiaeth o fflach-ddigwyddiadau. Roedd y rhain yn cynnwys cystadleuaeth ffilm fer â rhestr fet o chwe ffilm a phrofiad rhithwir pwrpasol a grëwyd ar gyfer yr ŵyl gan yr enillydd BAFTA Stuart Rideout. Aeth i ddau leoliad gyda'i brofiad "The Laughing Heart", a sgriniwyd ffilmiau byrion a grëwyd ar gyfer y gynghrair hinsawdd. Gwerthwyd pob tocyn i lawer o'r digwyddiadau a chafwyd sylwadau cadarnhaol yn eu cylch.



# BO PEEP, CWM A MYNYDD

Mae ffermio wedi parhau i fod yn un o'r diwydiannau sydd wedi trawsnewid yn ddigidol i'r graddau lleiaf. Mae dibyniaeth ar gymorthdaliadau'r UE a fydd yn debygol o newid yn dilyn Brexit, yn codi pryderon sylweddol ynglŷn â dyfodol ffermio yng Nghymru. Mae angen archwilio ffyrdd o wella effeithlonrwydd, defnydd ynni a chynaliadwyedd ffermydd ar gyfer canlyniadau amgylcheddol ac ariannol.

Mae tîm Rhaglen Datblygu Gwledig LEADER Cwm a Mynydd yn archwilio potensial hyn yn lleol er mwyn treialu offer casglu data manwl gywir sy'n cofnodi tymheredd y pridd, cyflymder y gwynt, cynnwys lleithedd, glawiad a symudiadau stoc, y bydd modd eu creu yn y pen draw am bris fforddiadwy gyda hyblygrwydd i fod yn addas i amrywiaeth o gymwysiadau fferm.

Mae'r prosiect yn cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â chontractiwr sector preifat a Phrifysgol Aberystwyth. Mae'n canolbwyntio ar lwyfan hyblyg, ar-lein sy'n casglu gwybodaeth at ei gilydd o synwyryddion pwrpasol, boed ar draws fferm unigol neu sawl fferm wahanol, a sawl ffynhonnell ddata. Mae'r llwyfan yn caniatáu hyblygrwydd o ran y dewis y synwyryddion y mae ffermwyr unigol yn eu defnyddio. Mae'r synwyryddion yn monitro tymheredd y pridd neu'r aer i gynorthwyo cynhyrchu gwair a symudiadau stoc ar leoliadau fferm anghysbell neu gallan nhw ddarparu data amgylcheddol i rybuddio am debygolrwydd uwch o blâu. Mae'r system yn ddigon hyblyg i newid y mewnbwn data heb orfod newid y prif seilwaith a bydd yn caniatáu cyfathrebu dros nifer o lwyfannau cyffredin, fel RFID, LORA a GPS.

Mae'r prosiect wedi cynhyrchu system eisoes sy'n trosglwyddo data rhwng anifeiliaid a synwyryddion sefydlog mewn caeau i weinydd canolog 'ar y fferm'. Wedyn caiff hyn ei lanlwytho i'r Cwmwl drwy lecyn Wi-Fi. Mae'r system wedi'i datblygu i fod â chost isel ac yn y pen draw bydd yn gweithredu'n awtonomaidd, gan gyflwyno 'galwad i weithredu' i ffermwyr prysur dim ond pan fydd rhywbeth brys y mae angen ei ddwyn i'w sylw.

Sicrhawyd £10,000 drwy Gronfa Gweithredu LEADER Cwm a Mynydd ar gyfer y prosiect treialu hwn. Mae amrywiaeth eang o gymwysiadau posibl y gellid eu teilwra i ddiwallu anghenion ffermydd unigol, gan fynd i'r afael â bygythiadau, addasu i newid a helpu i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd newydd.

| | |
|---|---|
| Ymgysylltwyd ag partner ymchwil **1** | **3** synhwwyrydd micro hinsawdd |
| **1** Partner Diwydiant | **1** System ras gyfnewid ddigidol prototeip wedi'i chreu |







## FFERMIO DRWY BORI ER LLES CADWRAETH, TORFAEN

Helpodd cyllid LEADER Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent a ffermwyr lleol i gynnal astudiaeth pori er lles cadwraeth i nodi safleoedd addas ar gyfer pori yn wardiau gwledig Torfaen, yn ogystal ag ymgysylltu â ffermwyr i nodi rhwystrau i bori er lles cadwraeth. O ganlyniad i hyn, gwnaed cynigion penodol i safleoedd, bob un â rhestr gostau lawn, ac mae gwaith yn mynd rhagddi ar hyn o bryd i weithredu'r cynllun yn llawn.





## RHWYDWAITH AMAETH CWM A MYNYDD, CWM A MYNYDD


Trwy weithredu egwyddorion LEADER, daeth y prosiect hwn â ffermwyr a'r rhai hynny sy'n ymwneud â'r diwydiant amaethyddiaeth at ei gilydd i drafod pynciau sy'n effeithio ar y diwydiant a rhannu arfer gorau. Mae'r swyddog troseddau gwledig lleol yn mynychu'r rhwydwaith yn rheolaidd, a chynrychiolwyr lleol o Farming Connect ac Undeb Ffermwyr Cymru. Mae'r aelodau wedi helpu i lywio Rhaglen Datblygu Gwledig LEADER Cwm a Mynydd i gefnogi a datblygu prosiectau mewn partneriaeth â'i haelodau.

## AMAETH-FFERYLLIAETH CAERFFILI, CWM A MYNYDD

Daeth y prosiect hwn, drwy gymorth LEADER, â ffermwyr a gweithwyr fferylliaeth proffesiynol at ei gilydd i dreialu cynllun plannu cennin Pedr ar nifer o ffermydd ledled Caerffili a Blaenau Gwent. Caiff y cennin Pedr a gaiff eu cynaeafu eu profi am galanthamin, sylwedd sy'n dangos arwyddion addawol o ran rheoli clefydau'r ymennydd fel Alzheimer's. Bydd y cam nesaf yn canolbwyntio ar agweddau masnachol y planhigyn fel cnwd, gyda'r bwriad o drafod prisiau i gyflenwi'r galw fferyllol a meithrin cadernid ac amrywiaeth i ffermydd mynydd yr ucheldir o bosibl.



# FFERM MAES YR ONN, CWM A MYNYDD



Ers dros 30 mlynedd, mae'r teulu Davies wedi cynnal fferm arobryn o ddefaid y mynydd yn ne Cymru sy'n ffynnu ar laswelltir ochr y mynydd yn Sir Caerffili. Roedd nifer o heriau i'r swydd i Mr Davies, a fu'n gorfod teithio saith milltir ddwywaith y dydd i ofalu am ei dda byw dros ffyrdd mynyddig gwael. Byddai'r daith hon yn anoddach byth yn ystod y gaeaf pan all y fferm fod yn anhygyrch oherwydd eira mawr, a oedd hefyd yn peri pryder ynglŷn â lles y da byw.

Cefnogodd rhaglen LEADER Cwm a Mynydd y teulu Davies a Fferm Maes yr Onn, drwy weithio gyda SSE a'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu i ddatblygu ffermdy dau lawr cwbl gynaliadwy sydd wedi'i ganmol yn enghraifft nodedig o ragoriaeth adeiladu cynaliadwy. Galluogodd y datblygiad i'r busnes ehangu ymhellach a rheoli'r fferm a'i da byw yn well, gyda chynllun sy'n sensitif i'r amgylchedd a chyflwr hinsoddol yr amgylchedd.

Helpodd y rhaglen LEADER i ddwyn rhanddeiliaid y prosiect ynghyd i hwyluso, datblygu a chyflawni'r prosiect. Fe wnaeth LEADER gysylltu â Farming Connect hefyd dros gyfres o ddiwrnodau i arddangos enghraifft o fferm fynydd ucheldir weithiol oddi ar y grid i ffermwyr eraill.


Roedd y prosiect yn gyfle gwych i brofi cyfuniad o dechnolegau ynni adnewyddadwy ac ennyn dealltwriaeth werthfawr o effaith byw a chynnal busnes bach yn gynaliadwy mewn lleoliad gwledig. Cafodd cyfradd cynhyrchu a defnydd y fferm o drydan, gwres a dŵr dros dair blynedd o dan y Rhaglen Enghreifftiol a gynhaliwyd gan Ragoriaeth Adeiladu Cymru, ac mae'r prosiect wedi'i ddefnyddio i arddangos sut y gellir byw oddi ar y grid heb golli ansawdd bywyd.





## YNNI HYDRO, CWM A MYNYDD

Ariannodd LEADER astudiaeth i nodi cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu trydan hydro o nentydd ac afonydd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Lluniwyd rhestr fer ynghyd ag arolygon pellach o'r safleoedd a ffefrir a chafodd tri eu dwyn ymlaen ar gyfer astudiaeth fanylach. Roedd y fenter hon yn cynnwys ymgysylltu rhwng staff prosiect LEADER, perchnogion tir ac ymgynghorwyr i archwilio cynlluniau ym Mhontllanfraith, ac ar dir amaethyddol yn Nant y Twyn a Nant Twynharris. Rhoddwyd argymhellion i berchnogion tir o ran sut i ddatblygu'r cynlluniau.





## TRAFNIDIAETH YNNI ADNEWYDDADWY, PEN-Y-BONT AR OGWR

Gwnaeth Grŵp Ynni Cymunedol Cymru Gynaliadwy gais am gyllid i fanteisio ar bwynt gwefru cerbydau trydan i bweru cerbyd cymunedol penodedig. Roedd angen archwilio dichonoldeb llwybrau trafnidiaeth tebygol ar gyfer wardiau gwledig o amgylch Porthcawl, gyda llwybrau teithio hyfyw yn cysylltu i'r Ganolfan Iechyd newydd sy'n cael ei hadeiladu ar hyn o bryd yn ward gwledig y Drenewydd-yn-Notais. Ariannodd LEADER yr astudiaeth hon yn llawn a darparodd argymhellion ar gyfer prosiect treialu.

## CYNHADLEDD YNNI CYMUNEDOL, BRO MORGANNWG

Helpodd LEADER i ariannu'r digwyddiad hwn, a gynhaliwyd fis Ebrill 2018 yng Nghanolfan Gelfyddydau Sain Dunwyd. Roedd 45 o bobl yn bresennol o bob rhan o Fro Morgannwg a siroedd cyfagos, gan gynrychioli sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol. Rhoddodd pedwar siaradwr o gwmnïau ynni allweddol yn yr ardal drosolwg o'u profiadau o ddatblygu a gweithredu prosiectau ynni cymunedol ledled de Cymru. Cynhaliwyd gweithdy hefyd i archwilio dyheadau'r cyfranogwyr ar gyfer eu cymunedau.



# GOCONNECT, CWM A MYNYDD

Lluniwyd a chyflwynwyd rhaglen 12 wythnos gyda chymorth gan LEADER, i helpu i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc yn wardiau gwledig Caerffili a Blaenau Gwent, drwy roi'r sgiliau trosglwyddadwy i bobl ifanc sydd eu hangen i gael gwaith.

Cyflwynodd y prosiect ddau gwrs menter cychwynnol yng nghymunedau gwledig Rhymni a Thredomen, a chyflwynwyd cwrs menter dilynol yn y Ganolfan Arloesi er Rhagoriaeth yng Nghaerffili.

Cyflwynwyd y prosiect drwy ddull 'Cynllunio, Adeiladu, Gwerthu' yn y ddwy gymuned gyda phob un o'r dysgwyr yn datblygu ac yn profi eu syniadau busnes eu hunain. Y nod oedd rhoi'r hyder a'r sicrwydd i bobl ifanc gymryd y camau nesaf mewn menter.

Roedd y prosiect yn cynnwys consortiwm o fusnesau ac entrepreneuriaid. Cafodd dysgwyr eu tywys trwy bob cam o'r broses a dealltwriaeth, profiadau a chyfleoedd dysgu gwirioneddol i'w helpu i nodi eu dyheadau a'u grymuso â'r sgiliau a'r hyder i sefydlu microfusnes wirioneddol.

O ganlyniad i'r prosiect, mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddi erbyn hyn nad oedden nhw'n sylweddoli oedd ar gael iddyn nhw yn flaenorol.

Datblygodd GoConnect raglen hyfforddi newydd mewn gemau cyfrifiadurol a seiberddiogelwch, i roi cam cyntaf i bobl ifanc sydd wedi'u heithrio tuag at ddiwydiannau mawr y mae angen mwy o weithwyr arnyn nhw'n lleol.

Hefyd, trwy berthynas agos â Rhaglen Datblygu Gwledig Cwm a Mynydd, mae'r prosiect wedi cysylltu pobl ifanc â busnesau gwledig eraill yn rhwydwaith ehangach y prosiect datblygu gwledig, gan eu helpu i lunio prototeipiau o apiau neu lunio gwefannau, a bod yn fwy cydweithredol a chydnerth ar adeg o ansicrwydd economaidd.

| | |
|---|---|
| **2** swydd wedi'u diogelu | **1** swydd wedi'i chreu |
| **2** fenter ieuenctid wedi'u datblygu | **32** o bobl ifanc wedi ymgysylltu â'r prosiect |
| **4** person ifanc wedi cael cyflogaeth lawn-amser | **4** person ifanc wedi cael cyflogaeth ran-amser |
| **8** person ifanc wedi camu i addysg bellach | |







## CENHADON TWRISTIAETH CYMRAEG, PEN-Y-BONT AR OGWR

Trwy weithio gyda Chymdeithas Dwristiaeth Pen-y-bont ar Ogwr a Swyddog Rheoli Cyrchfannau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, helpodd LEADER i ariannu tîm o genhadon twristiaeth Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Cyd-darodd y prosiect ag Eisteddfod yr Urdd ym Mhencoed ym mis Mai 2017, i estyn croeso Cymraeg i ymwelwyr. Gwnaeth y cenhadon waith ymchwil i lywio prosiectau twristiaeth wledig yn y dyfodol ar gyfer y farchnad teuluoedd Cymraeg eu hiaith. Roedd hyfforddiant am ddim gyda gweithdy dau ddiwrnod yn archwilio trysorau'r rhanbarth.





## CYNLLUN HYFFORDDI HILL FARM, TORFAEN

Mae'r prosiect parhaus hwn yn addysgu cadwraethwyr a phobl â diddordeb, am waith ffermwyr mynydd a'i nod yw cau'r bwlch rhwng ffermwyr sy'n cynhyrchu bwyd ac arbenigwyr sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd. Ariannodd LEADER gynllun busnes, deunyddiau marchnata a chwrs i alluogi'r prosiect hwn i fod yn hunangynhaliol yn ariannol gan adeiladu pontydd rhwng rheolwyr tir, gweithwyr cadwraeth natur proffesiynol a ffermwyr a chefnogi incwm ffermydd hefyd. Cynhelir yr holl ddigwyddiadau hyfforddi ar y safle i ganiatáu i ffermwyr elwa ar gymorth o ddydd i ddydd.

## CYNLLUN BENTHYCA CYFRIFIADURON LLECHEN, BRO MORGANNWG

Creodd hyn gyfle i bobl leol gael benthyg cyfrifiaduron llechen o lyfrgelloedd gwledig i hybu sgiliau digidol a mynediad yn y gymuned. Helpodd LEADER i ariannu hyfforddiant i staff llyfrgelloedd a chynnal digwyddiad lansio yn Llyfrgell Llanilltud Fawr ym mis Hydref 2019. Tyfodd y prosiect hwn yn sylweddol yn nyddiau cynnar pandemig COVID-19 wrth i'r galw am gysylltedd digidol dyfu yn gynt. Gweithiodd y tîm LEADER gydag arweinwyr prosiect i sicrhau cyllid ac adnoddau ychwanegol ar gyfer y prosiect er mwyn cyrraedd trigolion ar draws cymunedau niferus.



# CYDWEITHFA GREFFTAU PEN-Y-BONT AR OGWR, PEN-Y-BONT AR OGWR


Ym mis Tachwedd 2016, penodwyd arbenigwr marchnadoedd crefftau i chwilio am ffyrdd o ddatblygu'r sector crefftau medrus yn lleol, a sicrhau'r potensial economaidd mwyaf posibl am grefftau lleol o safon yn yr ardal. Fe wnaethon nhw asesu hefyd ffyrdd y gall cymryd rhan mewn crefftau helpu i leihau ynysigrwydd cymdeithasol a chynyddu llesiant ymhlith yr henoed a'r rhai sy'n ynysig yn gymdeithasol, gan gynnwys y rhai sy'n gaeth i'r tŷ.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad â chrefftwyr a sefydliadau rhanddeiliaid dros chwe mis. Y canlyniad oedd cynllun datblygu a argymhellodd galendr o ddigwyddiadau ar draws y fwrdeistref sirol, i gynyddu cyfleoedd i fusnesau rwydweithio a gwerthu, gan hefyd hybu sgiliau, mynd i'r afael â materion fel ynysigrwydd a hybu morâl a llesiant yn yr ardal. Cynhaliwyd y digwyddiad crefftau cyntaf o'r enw 'Made in Penybont' ym mis Chwefror 2017, ac roedd yn hynod lwyddiannus.

Aeth Grŵp Gweithredu Lleol Pen-y-bont ar Ogwr ati i ddatblygu prosiect treialu i geisio nodi a datblygu model busnes sy'n gynaliadwy yn ariannol a fyddai'n cefnogi gweithgareddau'r rhwydweithiau, canolfannau a hyfforddiant – naill ai drwy gysylltu â busnesau neu sefydliadau sy'n bodoli eisoes neu drwy sefydlu busnes neu fenter gymdeithasol newydd. Nod y prosiect oedd gwella potensial economaidd a gwella sgiliau yn yr ardal, gan leihau ynysigrwydd cymdeithasol a gwella llesiant. Yn ogystal â chefnogi rhwydwaith crefftau i gael ei greu, ceisiodd y prosiect sefydlu cyfleoedd hyfforddi a mentora, canolfannau crefftau bach a strategaeth incwm ar gyfer y rhwydwaith.

Sefydlwyd Cydweithfa Grefftau Pen-y-bont ar Ogwr a chaiff ei chydnabod gan grefftwyr ledled y sir erbyn hyn. Mae wedi parhau i gael ei ysgogi gan fusnesau crefftau lleol sy'n cwrdd yn rheolaidd bellach, gyda lle i dyfu'n fwy yn y gymuned.

| | | | |
|---|---|---|---|
| 243 | o fusnesau crefftau wedi'u cefnogi | 73 | o bobl ynysig yn gymdeithasol wedi mynychu canolfannau crefftau |
| 118 | o bobl wedi'u hyfforddi mewn crefftau traddodiadol | 125 | o ddangosiadau hyfforddi wedi'u cynnal |
| 173 | o bobl wedi gwella'u sgiliau crefft | 63 | o sefydliadau rhanddeiliaid wedi cymryd rhan |







## TYDDYNWYR MORGANNWG, BRO MORGANNWG

Er gwaethaf yr argraff sydd gan rai eu bod yn 'ffermwyr hobi', mae'n rhaid i dyddynwyr fodloni'r un rheoliadau â ffermwyr mawr, heb yr un rhwydwaith cymorth. Helpodd LEADER i sefydlu rhwydwaith Tyddynwyr Morgannwg, lle mae 20-25 o dyddynwyr yn mynychu cyfarfodydd cymorth rheolaidd. Mae'r prosiect hwn wedi helpu i leihau ynysigrwydd yn y gymuned o dyddynwyr ac wedi gwella effeithiolrwydd eu gweithrediadau. Roedd y grŵp hwn mewn sefyllfa dda i gael cymorth yn ystod y pandemig a gwnaeth gais am ragor o gyllid LEADER i dreialu dull rhannu a gweinyddu meddyginiaeth hanfodol pan oedd milfeddygfeydd ar gau.






## CWRDD Â'R PRYNWR, CWM A MYNYDD

Comisiynodd a chynhaliodd Cwm a Mynydd gyfres o ddigwyddiadau wedi'u hariannu gan LEADER a'u cefnogi gan swyddog LEADER, i dynnu ynghyd cynhyrchwyr bach eu maint a'u cyflwyno i ddarpar gwsmeriaid yn y diwydiannau lletygarwch a gwasanaeth. Arweiniodd un cyfarfod at gynhyrchwyr cwrw a seidr lleol yn cynnal digwyddiad blasu mewn tafarn. Arweiniodd hyn at ymweliad â'r bragdy a'r fferm seidr a arweiniodd at stocio seidr a chwrw lleol mewn gwestai a bariau lleol.

## CYDWEITHFA FWYD Y BONT-FAEN, BRO MORGANNWG

Mae Cydweithfa Fwyd y Bont-faen yn darparu marchnad ffermwyr 'clicio a chasglu' y gall trigolion y Fro ei defnyddio i ragarchebu a phrynu bwyd gan gynhyrchwyr lleol a'i gasglu yn ystod cyfarfod wythnosol yn Ysgol Gyfun y Bont-faen. Mae'r gydweithfa yn denu tua 30-40 o siopwyr bob wythnos, sy'n prynu oddi wrth 23 o wahanol gynhyrchwyr ar gyfartaledd. Gellir archebu bob wythnos rhwng dydd Sul a dydd Mawrth a'u casglu ar nosweithiau Iau ym Maes parcio Arthur John.





# DEFNYDD BAND-EANG, SIR FYNWY

Mae Sir Fynwy yn adnabyddus am fod â seilwaith band eang gwael, gydag 8,000 o gartrefi a busnesau yn adrodd band eang gwael (20% o'r cyfanswm), gyda chyflymderau yn amrywio rhwng 1 a 10Mb/s. I roi cyd-destun, mae gan 95% o Gymru fynediad i gyflymderau o 30mb/s o ganlyniad i fenter Cyflymu Cymru Llywodraeth Cymru.

Helpodd LEADER i chwilio am gyfleoedd newydd i fynd i'r afael â phroblemau band eang yn Nyffryn Wysg. Cefnogodd y grŵp gweithredu lleol brosiect arloesol i dreialu technoleg band eang newydd a fyddai'n galluogi cymunedau gwledig i fwynhau'r un cysylltedd digidol ag ardaloedd trefol.

Treialwyd y dechnoleg hon, a elwir yn "amleddau darlledu gwag yn y sbectrwm diwifr", mewn un ardal yn Sir Fynwy. Cyfanswm y buddsoddiad yn y prosiect hwn oedd £15,500 a daeth £12,400 o hyn o gronfa Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn cynllun treialu llwyddiannus, lluniwyd adroddiad cynhwysfawr ar sail grant cyfalaf o £150,000 o'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig. Darparwyd cyllid cyfatebol gan yr ymgeisydd llwyddiannus ar GwerthwchiGymru drwy'r costau gosod. Caniataodd y grant hwn i 400 o gartrefi a busnesau gael mynediad i gyflymderau lawrlwytho band eang o fwy na 30mb/s.

Ym mis Medi 2019 sicrhaodd y prosiect grant arall o £150,000 o'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig a alluogodd 500 arall o eiddo i gysylltu â'r rhwydwaith diwifr estynedig. Cwblhawyd y gwaith hwn yn 2020.






## BYW'N ANNIBYNNOL, SIR FYNWY

Mae'r prosiect hwn, gyda chymorth gan LEADER, yn treialu dwy elfen o gymorth i bobl agored i niwed sy'n byw yn unigol. Mae'r elfen gyntaf yn gosod synwyryddion 'Rhyngrwyd Pethau' yn y cartref ac mae'r ail yn ceisio mynd i'r afael ag unigrwydd ac allgau cymdeithasol drwy osod dyfeisiau a weithredir gan y llais mewn cartrefi. I ddechrau, argymhellwyd unigolion gan y gwasanaeth Prydau Cymunedol yn Sir Fynwy, a nododd fwy na 100 o bobl a oedd yn ystyried eu hunain yn unig.

Helpodd prosiect LEADER i sicrhau cyllid trawsnewid digidol i ehangu'r prosiect ar draws ardal Gwent fwyaf, i dreialu pum dyfais ddigidol wahanol. Mae pob un o'r awdurdodau lleol yng Ngwent wedi cael dyfais ddigidol wahanol i'w threialu. Mae cyfanswm o 50 o ddyfeisiau'n cael eu gosod mewn cartrefi ledled Gwent, a bydd pob un yn mesur effeithiau ar fynd i'r afael ag unigrwydd ac allgáu cymdeithasol yn ogystal â byw'n fwy diogel gartref am fwy o amser.



## LLEOLIADAU CYMUNEDOL DIGIDOL, BRO MORGANNWG

Helpodd LEADER i ddatblygu cynlluniau treialu ar gyfer systemau archebu ar-lein mewn lleoliadau cymunedol ledled y Fro. Cyngor Tref Llanilltud Fawr a Neuadd Bentref Llandŵ yw'r ddau leoliad sy'n rhan o'r cynllun treialu. Mae'r holl leoliadau yn Llanilltud Fawr ar gael i archebu ar-lein erbyn hyn ac maen nhw wedi gweld cynnydd eithaf sylweddol yn eu harchebion ar gyfer neuadd y dref a oedd wedi'i thanddefnyddio yn flaenorol. Mae Neuadd Bentref Llandŵ wedi gweld bod y calendr ar-lein yn ddefnyddiol ar gyfer cwsmeriaid i wirio a yw'r neuadd ar gael.




## CYMUNEDAU CYSYLLTIEDIG GWLEDIG, SIR FYNWY

Yn rhan o'i waith cyflwyno 5G, lansiodd yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon raglen o'r enw Cymunedau Cysylltiedig Gwledig 5G, i dreialu cyflymderau cynt mewn ardaloedd gwledig. Ystyriwyd cynigion o bob rhan o'r DU. Mae'r datganiad o ddiddordeb a gyflwynwyd gyda chefnogaeth LEADER wedi'i gymeradwyo ac mae'n un o ddim ond pedwar yn y DU i'w ddewis ar gyfer cyfweliad. Dewiswyd Sir Fynwy o'r pedwar ymgeisydd i arwain y prosiect, sydd wedi dechrau ac a fydd yn cael ei gwblhau ym mis Mawrth 2022.

# CYNLLUN RHEOLI TIR COMIN, TORFAEN

Mae gan Raglen LEADER Torfaen swyddog rheoli tir penodedig sy'n sicrhau bod ffermwyr a pherchnogion tir yn ymgysylltu â datblygu ffyrdd newydd o gydweithio. Mae'r swyddog wedi ymgysylltu'n agos â ffermwyr a chominwyr lleol i nodi'r angen am gefnogaeth a gwaith cynaliadwy yn Nhorfaen.

Comisiynwyd dwy astudiaeth i ddatblygu Cynlluniau Rheoli Tir Comin, sydd wedi dwyn ynghyd feysydd blaenoriaeth ar gyfer datblygu cynaliadwy, gyda chymorth gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol sy'n awyddus i ddysgu sgiliau newydd a chreu technegau rheoli tir y gellir eu haddasu, yn ogystal â ffermwyr.

Mae cynlluniau ar waith i dreialu gwahanol dechnegau rheoli cynefinoedd mewn gwahanol ardaloedd a fydd o fudd i ffermwyr mynydd ac yn darparu cyfleoedd addysgol. Mae hefyd rhaglen yn parhau i atgyweirio waliau carreg sych ac adfer corsydd, yn ogystal â nodi cyfleoedd i greu pyllau dŵr i wella'r gallu i reoli stoc, cyfoethogi cynefinoedd ac atal gyrwyr oddi ar y ffordd.

Mae'r prosiect hefyd yn ceisio archwilio beth sydd wedi'i wneud i fynd i'r afael â rheoli troseddau tirwedd lleol, a llunio argymhellion pellach ar gyfer rhwystrau naturiol neu artiffisial, cyfathrebu a monitro.

Bydd cynllun cynaliadwy yn sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig yn gallu defnyddio'r comin yn y dyfodol, boed at ddefnydd tir, bioamrywiaeth, hamdden a thwristiaeth. Bydd hyn yn paratoi'r ffordd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yn allweddol i lwyddiant y prosiect hwn fu swyddog penodedig sy'n fedrus mewn technegau ymgysylltu, â gwybodaeth o reoli tir. Mae cymorth LEADER wedi rhoi'r amser sydd ei angen ar y swyddog hwn i feithrin ymddiriedaeth â'r ffermwyr.

- Mwy o fioamrywiaeth
- Mwy o ddealltwriaeth o reoli tir
- Cynllun y gellir ei addasu a'i ddefnyddio ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gan greu canolfan ranbarthol o arloesi gwledig, arfer gorau a hyfforddiant sgiliau







## PROSIECT GWENYN, CWM A MYNYDD, DYFFRYN WYSG A GWEITHREDU GWLEDIG CWM TAF

Daeth y prosiect hwn dan nawdd LEADER â gwenynwyr at ei gilydd o bob rhan o dde-ddwyrain Cymru i rannu gwybodaeth a phrofiad, yn ogystal â 'chyfeillio' gwenynwyr newydd â gwenynwyr profiadol i wella'u sgiliau a'u mentora. Darparodd cyfres o weithdai a nodwyd drwy ddilyn y dull LEADER, wybodaeth arbenigol ar gadw gwenyn a magu breninesau i leihau'r ddibyniaeth ar wenyn brenhines wedi'u mewnforio a chynnal poblogaethau gwenyn lleol. Cyflwynodd y prosiect 19 o weithdai hefyd i ysgolion i drafod swyddogaeth ecolegol gwenyn mêl yn ein hamgylchedd.





## GWARCHODFA NATUR GENEDLAETHOL CYNFFIG, PEN-Y-BONT AR OGWR

Comisiynodd Rhwydwaith Gwirfoddoli Cefn Gwlad Pen-y-bont ar Ogwr a Cyfoeth Naturiol Cymru brosiect tair blynedd i ddatblygu rheolaeth sensitif a strategol safle Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig. Gosodwyd gwell arwyddion a biniau, gan helpu ymwelwyr i fod yn fwy cyfrifol yn ystod eu hymweliad, a datblygwyd deunyddiau addysgol ar gyfer ysgolion a phrifysgolion i'w helpu i gael y gwerth mwyaf o'u hymweliad. Yn y tymor hir, y gobaith yw y bydd gan ymwelwyr well dealltwriaeth o bwysigrwydd cadwraeth amgylcheddol, nid yng Ngwarchodfa Natur Cynffig yn unig ond ledled Pen-y-bont ar Ogwr.

## GWELEDIGAETH TIR COMIN, TORFAEN

Bydd y prosiect hwn yn archwilio ac yn disgrifio'n ehangach gyfyngiadau dulliau o'r fath ar dir comin, ac yn nodi ffyrdd o sicrhau'r effeithiolrwydd gorau i ddulliau o'r fath o ran rhwyddineb mynediad i gymdeithasau porwyr, o wobrwyo camau rheoli gweithredol gan borwyr unigol ac o ateb y galw am nwyddau cyhoeddus. Mae'r allwedd i lwyddiant hyd yn hyn wedi'i seilio ar ymgysylltiad ar lawr gwlad â ffermwyr a chominwyr, a fu'n allweddol wrth ddatblygu'r prosiect o'r cychwyn cyntaf.



# PROSIECT CADWYNI CYFLENWI BWYD RHANBARTHOL (AGORA)

Prosiect cydweithredol oedd hwn yn cynnwys wyth Grŵp Gweithredu Lleol ac yn cwmpasu un ar ddeg o awdurdodau lleol. Y nod oedd sicrhau y gwireddir potensial mwyaf y gadwyn gyflenwi leol, gan alluogi'r rhanbarth cyfan wneud symud tuag at gadwyn gyflenwi fyrrach ar gyfer cynhyrchion o'r tir lleol.

Comisiynwyd astudiaeth dan nawdd LEADER i ennill dealltwriaeth gadarn o sut i gyflawni'r nod hwn fel rhanbarth. Gwnaed gwaith ymchwil yn yr wyth ardal llywodraeth awdurdod lleol i gael gwell dealltwriaeth o flaenoriaethau pob grŵp dros y tair blynedd nesaf a'r ffordd orau o weithio ar y cyd yn gydweithredol. Llywiodd yr astudiaeth gais arwyddocaol am gyllid i Gynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithredu Llywodraeth Cymru a oedd yn llwyddiannus, a phenodwyd Menter a Busnes i gyflawni prosiect dilynol ar draws y rhanbarth.

Ymgysylltodd y prosiect dilynol â busnesau cynhyrchu bach yn bennaf er mwyn eu hannog a'u cefnogi i feithrin eu capasiti a'u hyder, er mwyn ymestyn eu cynhyrchu, eu huchelgais a chwmpas y farchnad. Yr oedd hefyd yn gam cyntaf ar yr ysgol ar gyfer y cynhyrchwyr nad oedden nhw'n barod ar gyfer llwybrau cymorth presennol, fel brandio a marchnata, neu nad oedden nhw'n gallu cyrraedd llwybrau amgen i'r farchnad am resymau amrywiol.

Yr oedd yn canolbwyntio ar sicrhau'r arbedion maint mwyaf posibl, gan alluogi'r rhai nad ydyn nhw'n gallu ar hyn o bryd i ateb gofynion prynwyr allweddol ar gyfer cynnyrch lleol, nwyddau o'r tir lleol ac artisan, fel busnesau manwerthu i ymwelwyr a thwristiaeth. Nod arall y prosiect oedd ysgogi galw am y nwyddau hyn, drwy weithio gyda phrynwyr a defnyddwyr i'w helpu i ddeall hyfywedd llwybrau o'r fath i'r farchnad.

Cefnogwyd cyfanswm o 274 o gynhyrchwyr drwy'r prosiect, sefydlwyd 11 o rwydweithiau i gefnogi'r gadwyn gyflenwi leol i dyfu a ffynnu.

| | |
|---|---|
| Sefydlwyd rhwydwaith **11** | **2** gais am gyllid wedi'u cyflwyno |
| **6** chynllun gweithredu wedi'u datblygu ar gyfer ceisiadau cyllid yn y dyfodol | **7** ymarfer mapio ar draws y rhanbarthau i lywio cymorth yn y dyfodol |
| Cefnoggwyd o gynhyrchwyr **274** | Ymgysylltwyd â o randdeiliaid **305** |
| **2** lyfryn gwybodaeth busnes wedi'u cynhyrchu | |








## COLABORA, BRO MORGANNWG

Prosiect trawswladol yw hwn ag aelodau'r UE o'r DU, Ffrainc, yr Almaen, Catalonia, Latvia ac Iwerddon, lle mae'r aelodau yn archwilio ac yn rhannu dealltwriaeth o ddatblygiad a rheolaeth lleoedd ar gyfer rhannu mannau gwaith. Y nod yw gwerthuso budd economaidd creu y lleoedd hyn mewn ardaloedd gwledig i gael gwell dealltwriaeth o arfer gorau o ran sefydlu a chynnal y lleoedd hyn.

Ym mis Tachwedd 2019, cafodd cynrychiolwyr gymorth drwy gyllid o LEADER, i ymweld â Grŵp Gweithredu Lleol Leipziger Muldenland yn yr Almaen, i gyfnewid syniadau a phrofiadau o ddatblygu lleoedd ar gyfer rhannu mannau gwaith. Yn rhan o'r ymweliad cafwyd cyflwyniadau, ymweliadau â lleoliadau arfaethedig ar gyfer lleoedd ar gyfer rhannu mannau gwaith, gweithdai ac arddangosfa ranbarthol. Hwn oedd y trydydd ymweliad trawswladol yn rhan o'r prosiect hwn.



## TIRWEDD Y COMIN – CWM A MYNYDD A GWEITHREDU GWLEDIG CWM TAF

Ariannodd LEADER brosiect i sefydlu parcmon rhan-amser a swyddog gweinyddol rhan-amser i ddatblygu mentrau sydd â'r nod o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n gyffredin ar draws tirweddau comin yn ne-ddwyrain Cymru.

Rhwng 2018 a 2020, mae'r prosiect hwn wedi helpu i gael gwared ar 31 tunnell o dipio anghyfreithlon a sbwriel o dir comin. Sefydlodd y prosiect hefyd grŵp gwirfoddoli a meithrinodd gysylltiadau â sawl ysgol leol i addysgu disgyblion am barchu'r tir comin a'r cefn gwlad o'u hamgylch.

Mae timau LEADER wedi cynorthwyo drwy gefnogi'r Gymdeithas Cominwyr i ddatblygu eu strwythurau cyfreithiol a llywodraethu, i sicrhau a galluogi cadernid y sefydliad yn y dyfodol. Mae'r materion sy'n effeithio ar dir comin yn parhau i fod yn hollbresennol ledled Cymru, ond mae llwyddiant y prosiect hwn wedi arwain at gais am gyllid yn y dyfodol trwy'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy.



# DICHONOLDEB MARCHNAD DA BYW, BRO MORGANNWG

Paratôdd LEADER adroddiad i bennu dichonoldeb datblygu marchnad da byw amlbwrpas yn yr ardal. Fe wnaeth hyn gynnwys rhaglen helaeth o ymchwil, ymgynghori ac ymgysylltu â ffermwyr, cynhyrchwyr, aelodau'r cyngor, swyddogion y llywodraeth, undebau ac aelodau'r cyhoedd.

Cafwyd lefel aruthrol o gefnogaeth i arwerthiannau da byw traddodiadol yn lleol, yn ogystal ag awydd am farchnad da byw cymysg. Mynegodd pob ymgynghorai yr angen i ddenu mwy o brynwyr lleol. Roedd pryderon dealladwy ynglŷn â'r ansicrwydd o ran cynhyrchu defaid ar ôl Brexit, roedd yr holl randdeiliaid o'r farn y na ddylai cyfleuster newydd ddisodli 'tebyg â thebyg' ac y dylid ei defnyddio fwy nag unwaith yr wythnos.

Roedd y rhaglen ymchwil hon yn allweddol i brofi'r angen am gyfleuster marchnad newydd yn yr ardal, gan alluogi ffermwyr i amrywio ac ychwanegu gwerth at eu cynhyrchion trwy ddarparu cyfleusterau ar y cyd fel torri cig a defnydd storfeydd oer. Argymhellodd LEADER hefyd ganolfan arwerthiant aml-swyddogaeth ar gyfer gwerthiannau da byw cymysg, yn ogystal â pheiriannau fferm, nwyddau cartref a henbethau. Byddai gan y ganolfan hefyd ganolfan fusnes fach i gefnogi busnesau gwledig a chynhyrchu bwyd.

Er bod y prosiect hwn yn dal i fod ar waith, mae Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cydweithio i ddatblygu'r ganolfan arwerthiant hon ac archwilio cyllid i ddatblygu cynlluniau pellach pan gytunwyd ar safle.

**120** Cyfranogion a gefnogwyd

**13** Sefydliadau yr ymgysylltwyd â nhw

**6** Busnesau yr ymgysylltwyd â nhw







## COMMUNITY FOODIE, BRO MORGANNWG, PEN-Y-BONT AR OGWR A THORFAEN

Helpodd swyddogion a ariannwyd drwy LEADER i ddatblygu'r prosiect hwn yn 2011, i gefnogi'r galw cynyddol am le i dyfu bwyd. Mae'r prosiect wedi helpu i drawsnewid sawl safle segur neu wedi'u tanddefnyddio yn erddi ffyniannus, perllannau a rhandiroedd tyfu, yn ogystal â chefnogi ysgolion a grwpiau cymunedol â gwelyau tyfu bach. Mae'r prosiect yn cefnogi ffyrdd iach o fyw ac yn cyflwyno sgiliau gwerthfawr wrth godi ymwybyddiaeth o fanteision ehangach tyfu bwyd yn lleol.






## MANWERTHU CYNNYRCH LLEOL MEWN PARCIAU GWLEDIG, PEN-Y-BONT AR OGWR

Helpodd LEADER i gomisiynu astudiaeth ar raddfa fach a chynllun datblygu arfaethedig ar ddichonoldeb marchnata a gwerthu cynnyrch a chrefftau lleol mewn parciau gwledig. Defnyddiodd yr astudiaeth Barc Gwledig Bryngarw fel astudiaeth achos, gan archwilio llwyfannau ffisegol ac ar-lein, datblygu cynnyrch yn ogystal ag allbynnau ariannol ac integreiddio cynhyrchwyr lleol. Bydd yn darparu sail i gynllun ar gyfer datblygu yn y dyfodol, cyllid a strategaethau cynaliadwyedd.

## CADWYN GYFLENWI YSGOLION, BRO MORGANNWG

Mae adran arlwyo Cyngor Bro Morgannwg yn creu Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol i ganiatáu iddyn nhw gyrchu cynnyrch lleol ar gyfer cinio ysgol. Helpodd LEADER i drefnu cyfarfodydd un i un rhwng y Tîm Arlwyo a darpar gyflenwyr, gan arwain at brosiect treialu i ddefnyddio Tŷ Tanglwyst Dairy i gyflenwi llaeth i bob ysgol yn y Fro.



# COVID-19

Perodd achosion COVID-19 heriau eithriadol i'n cymunedau gwledig. Roedd trigolion a busnesau lleol fel ei gilydd yn wynebu newidiadau sylweddol i'w bywydau dyddiol a rhoddwyd straen ar wasanaethau lleol. Ymatebodd timau LEADER ledled de-ddwyrain Cymru yn gyflym i'r amgylchiadau newydd hyn; gan eu bod yn sefydliadau sefydledig yr ymddiriedir ynddyn nhw â chysylltiadau rhagorol, adnoddau ar gael a swyddogion creadigol pwrpasol, gweithredwyd nifer o fentrau yn gyflym gan fynd i'r afael â thrawstoriad amrywiol o heriau i liniaru'r argyfwng oedd yn esblygu.

## PANTRÏAU CYMUNEDOL, PEN-Y-BONT AR OGWR

Roedd y prosiect Lleoliadau Cymunedol Cynaliadwy yn rhagweithiol wrth ymdrin ag anghenion y gymuned a ddatblygodd yn sgil y pandemig. Sicrhaodd tîm cyflawni'r prosiect gyllid cymorth COVID-19 ar gyfer rhai lleoliadau treialu a sefydlodd rwydwaith o 12 pantri cymunedol FareShare ar draws y fwrdeistref, sydd wedi dosbarthu dros 5,400 o fagiau yn cynnwys dros 48,000Kg o fwyd i fynd i'r afael â thlodi bwyd. Mae'r lleoliadau wedi elwa ar fwy o ymwelwyr, mwy o farchnata a mwy o ddefnydd o gyfleusterau gan drigolion a rhanddeiliaid.






## CYNLLUN BWYD CYMUNEDOL, TORFAEN

Helpodd y Cynllun Bwyd Cymunedol a arweinir ar y cyfan gan wirfoddolwyr i ddatblygu dulliau amgen o gyflawni prosiectau yng nghymuned Torfaen, i helpu i fynd i'r afael â thlodi bwyd yn ystod COVID-19. Nod y prosiectau hyn oedd gwella'r gallu i gael gafael ar fwyd maethlon a fforddiadwy, addysgu pobl ifanc a theuluoedd i ddatblygu sgiliau bwyd, gwella gwybodaeth am fwyd maethlon fforddiadwy, cysylltu pobl o bob oedran trwy goginio, tyfu a bwyta, ac yn olaf caniatáu i arbenigwyr rannu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad.





## RHAGLEN CYSYLLTU I LESIANT. GWEITHREDU GWLEDIG CWM TAF

Yng ngoleuni COVID-19 bu'n rhaid i Grŵp Sefydliad Gellideg addasu ei Raglen Cysylltu i Lesiant. Nod y prosiect oedd cefnogi pobl agored i niwed sy'n ynysig a/neu ag iechyd gwael neu galedi i gyflawni Llesiant. Cafodd gwirfoddolwyr cymunedol eu recriwtio gan Gydlynydd Gwirfoddolwyr i ddarparu gwasanaethau llesiant newydd drwy ddull rhithwir. Hefyd, gyda llawer o bobl yn teimlo effaith gostyngiad i'w hincwm, trefnodd y Cydlynydd Gwirfoddolwyr bantri cymunedol symudol a aeth i wardiau gwledig i ddarparu bwyd FareShare i aelodau ynysig o'r gymuned i'w helpu i gynnal deiet iach.






## ARWYR Y FRO, BRO MORGANNWG


Yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf, roedd y tîm LEADER yn gallu cefnogi cymunedau gwledig drwy weithio gyda chydweithwyr yn y Cyngor i greu cronfa ddata ar-lein y gellir ei chwilio i dynnu sylw at gymorth y trydydd sector sydd ar gael. Sefydlodd cydweithwyr 'Gronfa Grant Arwyr y Fro' i gefnogi ymdrechion parhaus grwpiau cymunedol. Cafodd nifer o grwpiau eu hariannu'n uniongyrchol hefyd gan y rhaglen LEADER i ddatblygu cynlluniau i ddatblygu cynlluniau i helpu cymunedau yn ystod y pandemig, ond a oedd hefyd yn cynnwys cwmpas ar gyfer effaith hirdymor.

## CWM A MYNYDD

Cynigiodd y rhaglen datblygu gwledig ar gyfer Caerffili a Blaenau Gwent gymorth busnes un i un i fentrau gwledig micro a bach drwy gydol y pandemig. Archwiliodd sesiynau sut roedd pob busnes yn ymdopi, pa heriau roedden nhw'n eu hwynebu, unrhyw gyfleoedd, a beth oedd ei angen i symud ymlaen. Rhoddwyd cyngor unigol i gyfranogion i'w helpu i addasu. Gweithiodd y prosiect gydag 11 o fusnesau yr effeithiodd COVID-19 arnyn nhw ac mae wedi datblygu gwell dealltwriaeth o effeithiau lleol wrth gysylltu busnesau â chymorth uniongyrchol gan y cyngor lleol a Llywodraeth Cymru.



# ARGYMHELLION AR GYFER RHAGLENNI'R DYFODOL







**Mae LEADER wedi hwyluso amrywiaeth eang o brosiectau. Ni fyddai rhai ohonyn nhw wedi digwydd heb gymorth, cyngor ac anogaeth ein timau pwrpasol. Gyda'n gilydd rydym wedi meithrin arloesedd, creadigrwydd ac addasu ar draws ein rhanbarth o fewn nifer o themâu sy'n effeithio ar fywyd gwledig mewn byd sy'n newid yn gyflym.**

**Mae ein profiadau ar y cyd a'n hangerdd ar gyfer cefnogi, cynnal ac arddangos y cymunedau gwledig rydym yn gweithio ynddyn nhw wedi hysbysu a llywio'r argymhellion canlynol ar gyfer rhaglenni datblygu lleol dan arweiniad y gymuned ar ôl 2021.**

### Cadw timau lleol

Trwy gynorthwyo gyda chymhlethdodau gwaith papur a gweinyddu unigolion a mentrau, maen nhw'n ymgysylltu â phobl a chymunedau na fyddan nhw'n ymgysylltu â chynlluniau cenedlaethol fel arall.

### Cadw trefniadau gwneud penderfyniadau yn lleol ac yn atebol

Mae'n angenrheidiol cadw'r Grŵp Gweithredu Lleol a strwythur tîm mewn hinsawdd wleidyddol ac economaidd sy'n newid yn gyflym.

### Dilyn dull LEADER

Bwriad y dull hwn yw defnyddio capasiti ac egni pobl ac asiantaethau ar gyfer datblygu gwledig ar lefel isranbarthol i drawsnewid ein cymunedau gwledig.

### Cymysgedd o gyllid cyfalaf a refeniw

Bydd yr hyblygrwydd hwn yn cynyddu cyfranogiad ac yn cefnogi gweithgarwch economaidd yn well mewn sectorau a mentrau sy'n rhy fach neu nad oes ganddyn nhw yr adnoddau i ymdrin â strwythurau llywodraeth a chynlluniau cenedlaethol mwy.

### Wedi'u gweinyddu'n lleol

Gall defnyddio gwybodaeth, sgiliau a phrofiad aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol gynyddu adnewyddu gwledig drwy ymgysylltu â mentrau llai sy'n cael eu heithrio yn aml neu â phrinder adnoddau i fanteisio ar gyfleoedd ariannol mwy.

### Cyllid Cymorth Gwladwriaethol

Bydd caniatáu cymorth pan fo'i angen ac yn unol â chymorth a gynigir drwy raglenni grant mwy a weinyddir yn ganolog yn arwain at lai o risg i gamau gweithredu LEADER, gan gefnogi ystod ehangach o brosiectau.

### Systemau cyllid a chymorth syml

Swyddogaeth timau Datblygu Gwledig a Grwpiau Gweithredu Lleol yw canolbwyntio ar werth posibl a gweld cyfleoedd prosiectau sy'n cyflawni nodau craidd datblygu gwledig wrth gyrraedd targedau a nodau mesuradwy.

### Cymru gyfan dan arweiniad lleol

Mae'r dull hwn yn creu ymdeimlad o gydweithredu yng Nghymru sy'n parchu ac yn gweithio dros bob ardal leol. Mae timau Datblygu Gwledig yn arbenigwyr mewn hwyluso'r cydbwysedd rhwng blaenoriaethau cenedlaethol ac angen lleol.

### Ehangu Datblygiad Lleol dan Arweiniad y Gymuned

Dylid defnyddio'r dull hwn fel yr egwyddor sylfaenol mewn holl gyllid y sector cyhoeddus i sicrhau bod anghenion a chyfleoedd lleol yn gweithio tuag at flaenoriaethau cenedlaethol wrth gadw cymunedau wrth galon eu datblygiad eu hunain.

### Manteisio ar wybodaeth leol

Mae timau Datblygu Gwledig o bob rhan o'r de-ddwyrain wedi meithrin cysylltiadau cynhyrchiol a hir-oes a all weithredu fel hidlydd a gwasanaeth atgyfeirio i gynlluniau cenedlaethol. Mae hyn yn sicrhau bod anghenion lleol yn parhau ar flaen uchelgais a chyfle cenedlaethol.



Am fanylion cyswllt a rhagor o wybodaeth ewch i:
**Rhwydwaith Gwledig Cymru | Busnes Cymru**